


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyhoeddwyd: Mawrth 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 124A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn dda ac yn parhau i ddatblygu adroddiadau cyhoeddus sy'n cynnig asesiad teg a chytbwys o'r cynnydd yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau 7

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'r meysydd sy'n flaenoriaeth iddo 7

Mae trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor wedi sicrhau dull hunanwerthuso aeddfed sydd wedi bwrw gwreiddiau 13

Mae gwaith cynllunio ar gyfer gwella y Cyngor a'i drefniadau i gefnogi'r gwaith gwella hwnnw yn gadarn 15

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 19

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin 20

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 22

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Caerfyrddin 25

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn dda ac yn parhau i ddatblygu adroddiadau cyhoeddus sy'n cynnig asesiad teg a chytbwys o'r cynnydd yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

3 Nodwyd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'r meysydd sy'n flaenoriaeth iddo:

- mae'r gwasanaethau tai wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran cyflawni *Safon Tai Sir Gaerfyrddin*;
- mae'r Cyngor yn dal i roi cymorth da i ddinasyddion sy'n agored i niwed;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei *Raglen Moderneiddio Addysg*;
- mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn dda ac mae ei ragolygon ar gyfer gwella'n dda;
- mae dull gweithredu'r Cyngor o ran gwella'r amgylchedd yn datblygu ac mae'n gallu dangos cyflawniadau gwirioneddol o ran deall ei anghenion ynni a hefyd wrth ymgysylltu â phartneriaid a'i gymunedau lleol;
- mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar gyflawni targedau lleihau gwastraff cenedlaethol;
- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi'r economi mewn cyfnod anodd.

4 Yn ogystal, nodwyd bod trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor wedi sicrhau dull hunanwerthuso aeddfed sydd wedi bwrw gwreiddiau.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad bod gwaith cynllunio ar gyfer gwella y Cyngor a'i drefniadau i gefnogi'r gwaith gwella hwnnw yn gadarn. Yn benodol:

- mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon;
- mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol;
- mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn, er y gellid cryfhau'r cysylltiadau â'r amcanion strategol a'r amcanion gwella;
- mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd o ran ei *Gynllun Iaith Gymraeg* drwy hyfforddi staff ond mae angen datblygu rhagor ar y wefan Gymraeg.

# Argymhellion

## Argymhellion – Dim

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny.  Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall.  Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn dda ac yn parhau i ddatblygu adroddiadau cyhoeddus sy'n cynnig asesiad teg a chytbwys o'r cynnydd yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym mhob un o'r meysydd sy'n flaenoriaeth iddo

#### Mae'r gwasanaethau tai wedi gwneud cynnydd ardderchog o ran cyflawni *Safon Tai Sir Gaerfyrddin*

10 Mae'r Cyngor yn disgwyl cyflawni *Safon Tai Sir Gaerfyrddin* erbyn 2015 a bydd hyn yn golygu bod cartrefi'r Cyngor yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru wedi pennu dyddiad targed o 2012 ar gyfer cyflawni'r safonau hyn, nid oes yr un cyngor yng Nghymru wedi cyrraedd y targed hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwneud cynnydd rhagorol a chaiff hyn ei adlewyrchu mewn dogfen cynllunio ar gyfer gwella sy'n gadarnhaol ac yn adeiladol iawn. Mae'r Cyngor wedi ehangu ei amcan gwella ar gyfer y flwyddyn nesaf i gynnwys ymrwymiad ehangach o lawer, sef gwella mynediad at dai addas i'w holl ddinasyddion. Mae hyn i'w groesawu oherwydd tenantiaid tai cyngor yn unig a oedd yn elwa ar y ffocws blaenorol ac nid oedd yn berthnasol iawn i'r gymuned ehangach.

11 Mae asesiad y Cyngor o'r effaith ar iechyd yn sylfaen dystiolaeth gadarn fod cyflawni amcanion *Safon Tai Sir Gaerfyrddin* wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran iechyd corfforol a meddyliol y tenantiaid. Mae hyn yn amlwg o fudd i denantiaid ond dengys hefyd sut y gall buddsoddi mewn cartrefi da leihau'n sylweddol y galwadau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r penderfyniad i gomisiynu'r asesiad o'r effaith ar iechyd yn enghraifft o arfer da.

#### Mae'r Cyngor yn dal i roi cymorth da i ddinasyddion sy'n agored i niwed

12 Mae cynllun gwella'r Cyngor a'i ddogfennau adolygu'n cyflwyno darlun cadarnhaol iawn o'i gynnydd parhaus a'i ymrwymiad cadarn i wella'n gyson a chefnogi lles dinasyddion y sir. Mae'r staff yn pwysleisio'r ymdeimlad o gyflawniad sydd ganddynt, a hynny ar sail gwaith partneriaeth rhagorol, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae partneriaethau mewnol da hefyd gyda'r adrannau tai ac addysg, o dan oruchwyliaeth strwythurau uwch reoli effeithiol. Mae AGGCC wedi cydnabod bod y Cyngor yn dangos parodrwydd cynhenid i wella a'i fod yn croesawu beirniadaeth adeiladol.

13 Cyhoeddodd AGGCC ei hadolygiad a'i gwerthusiad ar berfformiad 2011-12 ym mis Hydref 2012. Mae hwn yn disgrifio newid a gwelliant cadarnhaol. Ceir crynodeb o'r adroddiad llawn isod.

14 Mae pobl yn elwa ar gael gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'i integreiddio'n dda. Ceir yma weledigaeth gorfforaethol gref ac mae arloesi'n amlwg mewn nifer o feysydd gwasanaeth i oedolion ac i blant. Mae'r Cyngor wedi cynnal ei berfformiad cadarn ym maes gwasanaethau plant ac mae'n dal i wella arnynt. Mae'r strwythur sefydliadol yn ategu arweinyddiaeth a rheolaeth dda ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi elwa ar gael gweithlu sefydlog a pherthynas sydd wedi'i datblygu'n dda ag asiantaethau eraill. Mae nifer o swyddi allweddol yn swyddi ar y cyd â maes iechyd a thrwy ddirprwyo awdurdod penodol ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol, lwyddir i gynnal proffil gwasanaethau arbenigol.

15 Ceir fframwaith comisiynu trosfwaol a thystiolaeth o ymgysylltu'n dda â phartneriaid a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r trefniadau diogelu ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed yn elwa ar gael seilwaith comisiynu a chontractio cadarn a hwnnw'n cael ei reoli gan yr un adran, gan gryfhau'r gallu i gyfathrebu a monitro.

16 Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod yn gwneud cynnydd da gyda gwasanaethau plant ac oedolion ac wedi cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'r meysydd gwella a nodwyd. Gwelwyd gwelliant o'r naill flwyddyn i'r llall o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad o adolygiadau yn y gwasanaethau i oedolion, yn enwedig ym maes anableddau dysgu.

17 Nodwyd yr arferion da a ganlyn hefyd gan AGGCC:

- Mae gwasanaeth contractio, comisiynu a diogelu'r Cyngor yn cydweithio'n dda ag asiantaethau partner. Mae'n amlwg yn monitro perfformiad gwasanaethau a gomisiynir i sicrhau bod gwasanaethau gofal nad ydynt yn diwallu anghenion pobl yn cael eu monitro gan bob asiantaeth bartner a bod cynlluniau unioni yn cael eu rhoi ar waith.
- Mae pobl yn elwa ar gael ymateb effeithiol pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd bod iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hintegreiddio'n dda. Gall pobl gael mynediad at wasanaethau integredig sy'n cael diwallu eu hanghenion cymorth a chael ymateb i'w ceisiadau am gymorth gan dimau adnoddau'r gymuned.
- Mae pobl sydd ar fin cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn elwa ar wasanaeth gwaith cymdeithasol integredig a rhagweithiol. Mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth ymgryfhau i bobl sydd, er eu bod yn ddigon iach i'w rhyddhau o'r ysbyty, ag angen cymorth ychwanegol cyn iddynt ddychwelyd adref, i bobl y mae angen cymorth arnynt am gyfnod byr ar ôl cyfnod o salwch, neu i bobl y mae angen asesiad pellach arnynt mewn cartref gofal cyn gwneud penderfyniadau am eu gofal yn y tymor hir. Mae'r gwasanaeth hwn yn boblogaidd ac yn llwyddo i gyrraedd ei nodau.
- Gwelir canlyniadau cadarnhaol yn sgil datblygu gwasanaeth arloesol i helpu'r menywod hynny y cymerir mwy nag un plentyn oddi arnynt a'u rhoi i'w mabwysiadu. Os llwyddir i gynnal yr effaith gadarnhaol, dyma'r awgrym cyntaf bod modd rheoli'r maes ymarfer bach ond hynod bwysig hwn yn llwyddiannus.

18 Mae AGGCC wedi nodi'r risg bosibl a ganlyn:

- Dengys y wybodaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau oedolion nad oes digon o ddarpariaeth o ran gwasanaethau i ofalwyr. Gallai hyn leihau cydnerthedd gofalwyr a'i gwneud hi'n anos i bobl aros yn eu cartref eu hunain.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei *Raglen Moderneiddio Addysg*

19 Gwnaethpwyd cynnydd da o ran *Rhaglen Moderneiddio Addysg* y Cyngor, ond gwelwyd ambell enghraifft o oedi, megis wrth sicrhau cyllid addas. I raddau helaeth, mae hyn y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Nid yw'r datganiad yn yr adroddiad blynyddol sy'n dweud bod y Cyngor wedi llwyddo i gyflawni 18 o'i flaenoriaethau o blith 19, o ran yr amcanion gwella allweddol yr ymrwymwyd iddynt y llynedd, yn gwbl gywir. Dim ond yn rhannol y cyflawnwyd saith ohonynt, er enghraifft yr ymrwymiad i adnewyddu dwy ysgol. Cwblhawyd un ond ni chwblhawyd y llall oherwydd yr oedi wrth gael gafael ar gyllid.

20 Mae'r Cyngor yn mesur cynnydd drwy fonitro camau gweithredu a dangosyddion perfformiad dethol y gosodwyd targedau penodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, gall mesur cynnydd mewn perthynas ag amcan *Rhaglen Foderneiddio Addysg* y Cyngor ddibynnu gormod ar gamau gweithredu, ac mae'r unig darged rhifol (canran o'r ysgolion sy'n addas at y diben) yn un sydd fwy neu lai'n sicr o gael ei gyflawni. Gallai dulliau mesur amgen sydd â thargedau cysylltiedig megis canran yr ysgolion sy'n addas at y diben neu gyfanswm nifer y lleoedd gwag, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad mewn mannau eraill, eu defnyddio mewn modd ystyrlon i gefnogi'r ardal gwella hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag amcanion gwella'n rhai sydd wedi'u lledaenu dros fwy nag un flwyddyn ac yn cael budd o gael targedau clir ar eu cyfer o ran yr hyn y disgwylir ei gyflawni o fewn blwyddyn.

## Mae gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn dda ac mae ei ragolygon ar gyfer gwella'n dda

21 Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad ar ôl arolygu gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc ym mis Mawrth 2012 ac mae hwn ar gael ar ei wefan yn www.estyn.gov.uk. Ceir crynodeb o'r adroddiad llawn isod.

22 Mae'r perfformiad yn dda ar hyn o bryd oherwydd:

- mae'r perfformiad ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf;
- mae canran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- ers tair blynedd, mae'r Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o feincnodau cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad sydd wedi'u seilio ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim;
- mae'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol yn dda;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei *Raglen Moderneiddio Addysg*;
- mae uwch arweinwyr yn deall yn glir beth yw effaith camau adfywio a gofal cymdeithasol ehangach ar ganlyniadau addysg.

Fodd bynnag:

- mae cyfran yr ysgolion lle mae angen gweithgarwch dilynol ar ôl arolygiad yn uchel o gymharu â'r gyfran mewn awdurdodau eraill;
- o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn is na'r cyfartaledd a chryn dipyn yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd;
- mae rhywfaint o ddarpariaeth tu-allan-i'r-ysgol yr awdurdod yng nghyfnod allweddol 4 heb gael ei gofrestru'n briodol gyda Llywodraeth Cymru fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

23 Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda oherwydd:

- mae'r cynlluniau allweddol yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd ar bob lefel ac mae uwch arweinwyr yn gweithio mewn ffordd soffistigedig gydag amrywiaeth o bartneriaid strategol ar draws gwasanaethau cyhoeddus er mwyn pennu blaenoriaethau lefel-uchel ar y cyd;
- mae gan y Cyngor a'i bartneriaid ymrwymiad clir i ddysgwyr a datblygu diwylliant dysgu yn y sir;
- mae'r trefniadau ar gyfer cydlywodraethu'r rhwydweithiau 14 i 19 oed ar flaen y gad yn y sector;
- mae gan y Cyngor record dda o weld rhwystrau sy'n atal gwaith effeithiol ac sy'n llesteirio cynnydd, a record dda o ymyrryd yn y sefyllfaoedd hynny;
- mae uwch arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau anodd ac ymatebir yn rhagweithiol iddynt;
- mae'r Cyngor yn dadansoddi data a thystiolaeth o lygad y ffynnon yn dda er mwyn gwerthuso ansawdd ac effaith gwasanaethau'n gywir;
- mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael yn dda â holl argymhellion arolygiadau blaenorol Estyn ar wasanaethau addysg a chymorth i bobl ifanc;
- mae gan y Cyngor record dda o reoli ei gyllideb addysg yn effeithiol ac o wella effeithlonrwydd;
- craffwyd yn llwyddiannus ar agweddau anodd ar waith y Cyngor, ac mae hyn wedi bod yn sail dda i'r weithrediaeth wneud penderfyniadau.

Fodd bynnag:

- nid yw'r Cyngor wedi dadansoddi mewn ffordd ddigon systematig y manteision sy'n deillio o'i fuddsoddi i wella cyflwr, addasrwydd ac effeithlonrwydd ei ysgolion.

24 Er mwyn parhau i wella, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Estyn, sef:

- sicrhau gostyngiad yng ngyfran yr ysgolion lle mae gofyn cymryd camau dilynol yn sgil adolygiad;
- gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- cydweithio'n fwy effeithiol â SNAP Cymru er mwyn helpu rhieni i ddeall

y gwasanaethau a allai fod o gymorth i'w plant a'u helpu i gael mynediad i'r gwasanaethau hynny;

- sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth i ddisgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn cael ei chofrestru'n briodol fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

## Mae dull gweithredu'r Cyngor o ran gwella'r amgylchedd yn datblygu ac mae'n gallu dangos cyflawniadau gwirioneddol o ran deall ei anghenion ynni a hefyd o ran ymgysylltu â phartneriaid a'i gymunedau lleol

25 Mae adroddiad blynyddol y Cyngor yn cynnig disgrifiad a stori glir sy'n dangos pam mae angen i'r Cyngor ddefnyddio llai o ynni. Mae'r Cyngor yn wynebu cosbau cynyddol am allyrru Carbon Deuocsid ($CO_2$) a dyma'r prif gymhelliant i leihau'r allyriadau. Mae'r neges yn yr adroddiad blynyddol am ei berfformiad yn gwbl gadarnhaol, ac eithrio mewn perthynas â defnyddio rhagor o banelau ffotofoltaidd, ond y rheswm dros hyn yw'r ansicrwydd yn sgil y ffaith bod y Llywodraeth Ganolog wedi newid cyfraddau'r tariff cyflenwi trydan ar gyfer y panelau hyn a bod angen ailwerthuso'r achosion busnes yn sgil hynny. Fel rhan o'i weithgarwch, mae'r Cyngor hefyd wedi arbed arian drwy ddefnyddio boeleri biomas. Drwyddi draw, mae'r Cyngor wedi lleihau ei allyriadau $CO_2$ dri y cant.

26 Cydweithia'r Cyngor yn frwd iawn â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac wedi sôn am ei gynnydd yn ystod 2011-12 mewn adroddiad perfformiad blynyddol: *Gwneud Sir Gâr yn Sir Gynaliadwy*. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi llofnodi cytundebau partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Garbon Cymru ac Environwise er mwyn mesur llinellau sylfaen a phennu targedau lleihau carbon.

## Mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar gyrraedd targedau lleihau gwastraff cenedlaethol

27 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyrraedd ei dargedau lleihau gwastraff cenedlaethol. Mae'r gwelliant wedi digwydd fesul cam cymharol fach, ond mae'r gwella hwnnw wedi digwydd yn gyson a thros nifer o flynyddoedd. Disgwylia'r Cyngor y bydd yn cyrraedd targed 2012-13, sef ailgylchu 52 y cant o'r gwastraff trefol a gesglir. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol iawn o'r targedau lleihau gwastraff cenedlaethol, a goblygiadau methu â'u cyflawni. Mae hyn wedi golygu ei fod yn canolbwyntio'n benodol iawn ar hyn, sy'n gryfder.

28 Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion yn hollbwysig er mwyn parhau i wella'i gyfraddau ailgylchu. Er bod y Cyngor wedi creu swyddi cynghorwyr ailgylchu cymunedol newydd i wella'r ymgysylltu â dinasyddion, bydd rhaid i'r swyddogion hyn ddatblygu mwy o fentrau trawsbynciol ar faterion megis cydraddoldeb a throseddu ac anhrefn. Hefyd, gallai'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo am ymgysylltu yn well, yn enwedig gan y tîm canmoliaeth a chwynion canolog. Barn y Cyngor yw y bydd yn arbennig o anodd iddo gynnal ei berthynas â dinasyddion os bydd gofyn iddo ddilyn dehongliad Llywodraeth Cymru o ddulliau casglu ar garreg y drws.

## Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi'r economi mewn cyfnod anodd

29 Er bod y Cyngor ei hun yn rhybuddio bod yr economi'n dal i fod mewn dirwasgiad, mae'r manylion yn yr adroddiad blynyddol yn gadarnhaol iawn. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw datblygu economaidd, a bu llwyddiannau nodedig â chynlluniau canol trefi Caerfyrddin, Rhydaman a Llanelli, drwy sicrhau £13 miliwn ar gyfer Parc Busnes Dwyrain Cross Hands ac wrth ddarparu grantiau i gannoedd o fusnesau lleol. Fodd bynnag, nid oes digon o fyfyrio na gwerthuso yn y ddogfen, ac mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud â'r camau gweithredu a gwblhawyd yn unig yn hytrach na'r canlyniadau.

30 Mae'r Cyngor yn cynnwys y prif risgiau y mae wedi'u nodi ond weithiau mae'r hanesion llwyddiant yn celu'r rhain. Yn yr adroddiad blynyddol, nodir bod diweithdra wedi codi yn Sir Gaerfyrddin a bod 725 o fusnesau wedi methu yn 2010 o gymharu â 425 o gofrestriadau newydd; mae'r Cyngor yn adrodd fod Sir Gaerfyrddin yn denu'r nifer uchaf o gofrestriadau busnes gweithgynhyrchu, manwerthu, trafnidiaeth a storio yng Nghymru. At hynny, noda'r adroddiad fod prosiectau dyledion a chyngor yn cynyddu. Gellid esbonio dangosyddion o'r fath yn fwy clir a'u cysylltu'n well â'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â hwy.

31 Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros y 'Ganolfan Technium' yn Nafen ac wedi'i hailfrandio dan yr enw 'Y Goleudy'. Er ei fod yn disgrifio'r hyn y mae'r ganolfan ei wneud, nid yw mewn gwirionedd yn gwerthuso ei llwyddiant. Ym mis Tachwedd 2012, roedd pob un o'r chwe uned ddiwydiannol wedi'u gosod a dim ond dwy o'r 18 swyddfa oedd yn parhau i fod yn wag.

## Mae trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor wedi sicrhau dull hunanwerthuso aeddfed sydd wedi bwrw gwreiddiau

32 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio a'i ddyletswyddau adrodd yn effeithiol o dan y Mesur ac mae hefyd wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

33 Mae'r Cyngor wedi datblygu model cynllunio ar gyfer gwella a monitro ac mae hwnnw wedi bwrw gwreiddiau dwfn drwy'r sefydliad. Mae model 'teisen briodas' bum haen y Cyngor sydd wedi'i seilio ar ddull cynllunio-gwneud-adolygu yn dangos gwahanol lefelau'r gwaith cynllunio a monitro, ac mae pob un o'r rhain yn tynnu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys dinasyddion a rheoleiddwyr yn ogystal â'r amrywiaeth arferol o wybodaeth am berfformiad sy'n deillio o'r gwasanaethau eu hunain.

34 Cyflwynir adroddiadau am berfformiad i'r pwyllgorau craffu bob chwe mis. Yn ogystal â chyflwyno ystadegau am berfformiad i'r aelodau, cyflwynir naratif sy'n crynhoi'r sefyllfa hefyd. Mae system rheoli gwybodaeth am berfformiad y Cyngor ar gael hefyd i swyddogion ac i'r aelodau, ac mae'n cynnig mynediad ar-lein at wybodaeth gyfredol am berfformiad a chynnydd. At hynny, mae'n ffynhonnell ar gyfer yr adroddiadau ystadegol a ddefnyddir ar bob lefel yn y Cyngor.

35 Rhoddir cyfle i'r aelodau holi'r uwch swyddogion a herio a thrafod perfformiad mewn ffordd adeiladol. Rheolir cyfarfodydd yn effeithiol, ac mae ystod y cwestiynau ac ansawdd yr herio'n dda, er y gellid bob tro wneud rhagor i wella gwybodaeth yr aelodau er mwyn i'r herio fod yn fwy trylwyr eto.

36 Mae tystiolaeth gref o'r tu mewn i'r gwasanaethau a'r adrannau bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i reoli'n frwd ar lefel uwch swyddogion ac mae cysylltiadau clir a thryloyw rhwng cynlluniau busnes gwasanaethau a chynlluniau gwella trosfwaol y Cyngor.

37 Dywed AGGCC fod llythyr Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfrif cynhwysfawr a chywir o berfformiad y Cyngor a'i fod yn adlewyrchu'n glir y dystiolaeth a roddwyd iddi.

38 Ar ôl ei arolygiad ym mis Mawrth 2012, dywedodd Estyn fod y Cyngor yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar waith y gwasanaeth plant a phobl ifanc. At ei gilydd, mae'r Cyngor yn dadansoddi data a thystiolaeth o lygad y ffynnon yn dda er mwyn gwerthuso ansawdd ac effaith gwasanaethau'n gywir. Er hynny, oherwydd bod rhywfaint o anghysondeb yn y ffordd y defnyddid data roedd cynnydd yr awdurdod yn cael ei werthuso'n rhy hael mewn ambell faes gwaith. Mae'r trefniadau hefyd yn dangos yn glir y meysydd y mae angen gwella arnynt ac maent yn helpu i sicrhau bod y cynnydd a wneir, o gymharu â chynlluniau strategol a chynlluniau eraill, yn cael eu hadolygu'n effeithiol.

39 Roedd strwythur da i'r adroddiad hunanwerthuso a baratowyd ar gyfer arolygiad Estyn ac roedd cysylltiad da rhwng y gwerthusiadau a'r dystiolaeth a oedd yn eu hategu. Fodd bynnag, roedd ambell werthusiad wedi'i hepgor o'r adroddiad. O ganlyniad, nid oedd yn adlewyrchu'n gywir holl ystod, cwmpas ac effaith gwaith gwasanaethau addysg y Cyngor.

40 Roedd y Cyngor eto yn llwyddiannus, drwy dderbyn grant lawn Cytundeb Canlyniadau Llywodraeth Cymru. Mae gan bob cyngor yng Nghymru gytundeb eu hunain â Llywodraeth Cymru sydd yn nodi sut mae'r cyngor yn gweithio tuag at wella canlyniadau ar gyfer pobl leol, o fewn cyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Llwyddodd y Cyngor i gael marciau llawn, ac o ganlyniad, y grant yn llawn ar ôl cyflwyno ei adroddiad cynnydd ar gyfer 2011-12.

41 Ar 28 Medi 2012, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod am gyfrifon 2011-12 y Cyngor. Yn ogystal, cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd ei *Lythyr Archwilio Blynyddol* cyn diwedd Tachwedd 2012 – ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

# Mae gwaith cynllunio ar gyfer gwella y Cyngor a'i drefniadau i gefnogi'r gwaith gwella hwnnw yn gadarn

## Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

42 Penderfynodd y Cyngor oedi tan fis Hydref 2012 cyn cyhoeddi ei gynllun gwella eleni a'i gyfuno â'r adroddiad blynyddol. Y rheswm dros hyn oedd i roi digon o amser i'r weinyddiaeth newydd adolygu, a lle bo angen, addasu amcanion gwella presennol y Cyngor er mwyn iddo gyflawni ei uchelgais yn well.

43 Cyhoeddodd y Cyngor ei gynllun gwella a'i adroddiad blynyddol cyfun yn unol â'i fwriad erbyn 31 Hydref. Oherwydd mai dogfen gyfun yw hon, mae adrannau'r cynllun yn gryno; fodd bynnag, mae rhagor o fanylion ar gael yn yr atodiad technegol, sy'n gynhwysfawr.

44 Mae adrannau'r cynllun gwella yn syml ac yn glir, defnyddir cyn lleied o derminoleg dechnegol â phosibl ac, ar y cyfan, mae'n hwylus ac yn hawdd ei ddarllen. Mae'r Cyngor wedi datblygu rhagor ar ei flaenoriaethau o ran amcanion gwella allweddol, gan fireinio'n cwmpas ac ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud eisoes. Mae gan y Cyngor chwe blaenoriaeth o hyd, wedi iddo gyfuno dwy o'i flaenoriaethau blaenorol, a chreu un flaenoriaeth allweddol ychwanegol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau'n well a chreu gwell cyngor drwy ddarparu gwasanaethau sy'n dangos gwerth am arian a chyfeirio adnoddau at wasanaethau rheng flaen sy'n brif flaenoriaeth. Mae'r amcan hwn yn gwbl briodol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Cyflwynir pob blaenoriaeth allweddol mewn ffordd gyson, drwy ei hymgorffori ym mhob un o themâu'r strategaeth gymunedol, gan ddangos ystod ehangach o weithgarwch y  Cyngor.

45 Mae'n hawdd dod o hyd i'r cynllun ar wefan y Cyngor ac fe'i cyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan fodloni gofynion *Cynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor.

46 Mae cysylltiadau amlwg rhwng cynllun gwella'r Cyngor a'r cynlluniau gwasanaeth oddi tano, ac fel y nodwyd uchod, mae prosesau monitro a rheoli perfformiad y Cyngor yn aeddfed ac wedi bwrw gwreiddiau. Ein casgliad felly yw bod y trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

47 Er i ni gymhwyso dau ddangosydd perfformiad a chywiro un arall, ar y cyfan, mae dulliau'r Cyngor o gasglu gwybodaeth a chyflwyno adroddiadau am ddangosyddion perfformiad yn ddibynadwy.

## Mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol

48 Mae'r Cyngor wedi mynd ati i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau wrth asesu perfformiad, ac wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn anodd, sef 'a oes unrhyw un yn well ei fyd' yn ei ddau adroddiad blynyddol diwethaf gan adeiladu ar gysyniad y cerdyn cofnodi. Mae'r Cyngor yn meithrin cysylltiad â'i ddinasyddion hefyd drwy gynnal arolwg yn eu plith ac mae'n hybu dull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau wrth greu ei gynlluniau busnes.

49 Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei gynllun gwella er mwyn iddo ddisgrifio'n well yr hyn y mae wedi'i wneud a'r hyn y mae'n ei wneud yn wahanol yn sgil ei lwyddiannau neu ei fethiannau. Drwy oedi cyn cyhoeddi'r cynllun gwella, llwyddwyd i ryngweithio'n drwyadl â'r aelodau a sicrhau ei fod yn cael ei gymeradwyo'n llawn ac yn briodol. Bu cyfuno'r cynllun gwella a'r adroddiad blynyddol o fudd i'r Cyngor gan ei alluogi i ddatblygu naratif a llinell amser fwy eglur a chyfleu hynny'n effeithiol i'r cyhoedd.

50 Dangosodd adolygiad dilynol o'r trefniadau rheoli gwybodaeth fod y Cyngor wedi gwneud rhagor o gynnydd yn y maes pwysig hwn. Gwelsom fod cynnydd wedi'i wneud o ran pob un o'r tri chynnig gwella. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn parhau i fynd ati i reoli gwybodaeth mewn ffordd gadarn a thrwyadl. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd:

- Mae'r storfa ddata oddi ar y safle wedi'i symud ymhellach i ffwrdd, ond mae'n parhau i fod o fewn y terfyn naw milltir a argymhellir. Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad risg, ond nid yw hyn wedi'i gofnodi'n glir.
- Er nad yw'r Cyngor wedi cynyddu ei wybodaeth am ei ased gwybodaeth bapur, mae wedi mynd ati'n frwd i leihau maint yr ased hwn drwy annog defnyddio'r system rheoli dogfennau electronig.
- Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu protocolau rhannu gwybodaeth gan ddilyn Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

## Mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn er y gellid cryfhau'r cysylltiadau â'r amcanion strategol a'r amcanion gwella

51 Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r Cyngor yn rhag-weld y bydd ganddo, ar 31 Awst 2012, orwariant o £2.331 miliwn. Fel sy'n wir mewn blynyddoedd blaenorol, pwysau yn yr adran Gofal Cymdeithasol a Thai sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o hyn ac, yn ôl y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn, rhagwelir y bydd ei orwariant yn £2.211 miliwn. Mae'r adran Addysg a'r adran Gwasanaethau Technegol yn rhag-weld gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn hefyd, sef £245,000 a £185,000 yn y drefn honno ond rhagwelir y bydd gan adran y Prif Weithredwr danwariant £314,000, sydd fwy neu lai'n gwrthbwyso'r gorwariant.

52 Ar ddiwedd 2011-12, roedd gan y Cyngor ryw £99 miliwn yn ei gronfeydd defnyddiadwy, oddeutu £4 miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio rhywfaint o'r cronfeydd hyn dros y blynyddoedd nesaf.

Arddangosyn 1 – Cronfeydd defnyddiadwy'r Cyngor 2012-2016

| | Gwir 31.3.11 | Gwir 31.3.12 | Cynllun 31.3.13 | Cynllun 31.3.14 | Cynllun 31.3.15 | Cynllun 31.3.16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol y Sir | £9.7 miliwn | £8.6 miliwn | £6.5 miliwn | £6.5 miliwn | £6.7 miliwn | £6.7 miliwn |
| Cronfa wedi'i neilltuo ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai | £17.7 miliwn | £15.6 miliwn | £10.7 miliwn | £8.5 miliwn | £6.8 miliwn | £6.7 miliwn |
| Cronfeydd wedi'i neilltuo ar gyfer Ysgolion | £5.8 miliwn | £6.0 miliwn | £2.9 miliwn | £2.9 miliwn | £2.9 miliwn | £2.9 miliwn |
| Cronfeydd cyfalaf wedi'u neilltuo | £15.8 miliwn | £15.8 miliwn | £5.6 miliwn | £3.6 miliwn | £3.6 miliwn | £3.6 miliwn |
| Cronfeydd refeniw eraill wedi'u neilltuo | £54.9 miliwn | £53.2 miliwn | £42.0 miliwn | £36.0 miliwn | £33.0 miliwn | £31.3 miliwn |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Defnyddiadwy** | **£103.9 miliwn** | **£99.2 miliwn** | **£67.5 miliwn** | **£57.5 miliwn** | **£53 miliwn** | **£51.2 miliwn** |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Caerfyrddin*

53 Er bod cynlluniau ariannol tymor canol a thymor hwy'r Cyngor yn glir, nid ydynt wedi'u cysylltu'n dda ag amcanion strategol ac amcanion gwella. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd asesu sut y cyflawnir yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd sydd yn y rhagamcanion wrth i'r Cyngor geisio sicrhau ei fod yn gwella yn y meysydd sy'n flaenoriaeth iddo.

54 Mae gan y Cyngor hanes o ymgysylltu'n dda ac mae wedi gwneud hynny i raddau helaeth yng nghyswllt y gyllideb a blaenoriaethau. Mae'r aelodau, y cyhoedd a'r prif randdeiliaid i gyd wedi cael cyfle i gyfrannu a chynnig sylwadau.

55 Seilir cynllun ariannol y Cyngor ar ystod o wybodaeth gadarn a phriodol er y gallai ddefnyddio ystod ehangach o wybodaeth a'i darparu'n fwy helaeth i'r rheini sy'n herio'r cynlluniau ac yn craffu arnynt. Mae cynllun cyffredinol y Cyngor yn cael ei wireddu, gan ddangos gwelliannau amlwg yn y meysydd gwasanaeth sy'n flaenoriaeth iddo a hynny'n gyffredinol o fewn y gyllideb. Mae'r Cyngor yn monitro'n rheolaidd elfennau o'i gynlluniau, ond nid yw'n monitro arbedion effeithlonrwydd yn benodol, ac oherwydd bod y cysylltiadau rhwng cynlluniau'n wan, nid yw'r prosesau monitro mor effeithiol.

56 Mae trefniadau gweinyddu budd-dal tai'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith gwella i ryw raddau, ac ar y cyfan, bydd taliadau cywir yn cael eu gwneud mewn pryd i'r bobl iawn. Serch hynny, mewn nifer o feysydd allweddol, mae'r perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru. Mae'r amseroedd ar gyfer prosesu hawliadau newydd a newid amgylchiadau nyn hwy na chyfartaledd Cymru. Gwaethygodd yr amserau prosesu hawliadau newydd rhwng 2010-11 a 2011-12 a gwnaethpwyd llai o benderfyniadau ynghylch hawliadau newydd am fudd-dal tai o fewn 14 diwrnod. Mae'r lefelau cywirdeb fymryn yn is na chyfartaledd Cymru. Canfuwyd ac adenillwyd cyfran uwch o ordaliadau yn 2011-12 nag yn y flwyddyn flaenorol. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion o dwyll a gyfeiriwyd a chafwyd llai o geisiadau i ailystyried neu adolygu penderfyniad yn ystod 2011-12 nag a gafwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, a llwyddodd y gwasanaeth i brosesu'r rhain yn gyflymach nag amser cyfartalog holl gynghorau Cymru.

## Mae'r Cyngor yn dal i wneud cynnydd o ran ei *Gynllun Iaith Gymraeg* drwy hyfforddi staff ond mae angen iddo ddatblygu rhagor ar y wefan Gymraeg

57 Crëwyd rôl Comisiynydd yr Iaith Gymraeg (y Comisiynydd) yn sgil Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Dros gyfnod, daw pwerau newydd i rym drwy ddeddfwriaeth i orfodi safonau ar sefydliadau. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn dal i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

58 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cynghor ynghylch eu rhoi ar waith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r cyhoedd yn unol ag ymrwymiadau eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn sôn am ei berfformiad o ran rhoi'r cynllun iaith ar waith. Bydd y Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol iddo ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl y gofyn.

59 Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn dilysu safon ei wasanaethau Cymraeg ac mae strwythur craffu a rheoli ar waith drwy Weithgor Corfforaethol y *Cynllun Iaith Gymraeg*. Gan mai ychydig o recriwtio allanol sydd ar hyn o bryd, y prif ddull a ddefnyddir i gynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu yw hyfforddiant, ac felly, mae'n bwysig bod y Cyngor yn buddsoddi ac yn cynllunio'i hyfforddiant i sicrhau'r dylanwad mwyaf posibl. Darparwyd data cynhwysfawr ynghylch sgiliau iaith ei weithlu gan y Cyngor yn 2012, a bydd y wybodaeth yn bwysig er mwyn i'r Cyngor allu dadansoddi gallu gwahanol adrannau i ddarparu gwasanaethau o safon yn y Gymraeg. Mae cynyddu a gwella cynnwys Cymraeg gwefan y Cyngor yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Comisiynwyd cwmni allanol gan y Cyngor i adolygu cynnwys Cymraeg y wefan yn ystod y flwyddyn, a bydd angen iddo weithredu ar sail y canfyddiadau er mwyn parhau i wella'r ddarpariaeth.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £410 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,250 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £81 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Sir Gaerfyrddin oedd £1,187.59 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 2.38 y cant i £1,215.88 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 76 y cant o dai Sir Gaerfyrddin yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn

- 22 Llafur, 22 Annibynnol: Clymblaid
- 28 Plaid Cymru
- 1 Pobl yn Gyntaf
- 1 heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Mr Mark James CBE. Fe'i cefnogir gan y canlynol:

- Addysg a Gwasanaethau Plant: Robert Sully
- Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Bruce McLernon
- Gwasanaethau Technegol: Richard Workman
- Adfywio a Hamdden: David Gilbert
- Adnoddau: Roger Jones

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Gaerfyrddin yw:

- Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Keith Davies, Llanelli, y Blaid Lafur
- Rebecca Evans, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- Simon Thomas, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Plaid Cymru
- Joyce Watson, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- William Powell, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Gaerfyrddin yw:

- Jonathan Edwards, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Nia Griffith, Llanelli, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.sircaerfyrddin.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP. Ffôn: 01267 234567 neu e-bost: direct@carmarthenshire.gov.uk.

# Atodiad 3
# Y Llythyr Cyfrifon Blynyddol

Cllr. Kevin Madge
Arweinydd
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin,
SA31 1JP

Annwyl Gynghorydd Madge

## Y Llythyr Cyfrifon Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n codi yn sgil fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a minnau wedi fy Mhenodi'n Archwilydd ac o dan fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn briodol ac yn gyfreithlon ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel:
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac adolygu'r trefniadau hynny'n barhaus.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- cyhoeddi tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Seilir y Cod hwn ar Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Ar 28 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod am y Datganiad Cyfrifon yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno golwg deg a chywir ar sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd am y prif faterion a oedd yn codi o'r archwiliad i'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ynglŷn â'r Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2012.

Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ein bod wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i'r Datganiad o Gyfrifon Drafft ond na chanfuwyd gwendidau o bwys yn eich dulliau rheoli mewnol. Fel yr adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, rydym fodd bynnag wedi dod i'r casgliad nad bod y dulliau rheoli a ddefnyddir yn system cyfrifyddu cyfalaf yr asedau sefydlog *yn parhau i fod yn anfoddhaol a bod angen gwella arnynt*.

Seiliwyd fy ystyriaeth ynghylch trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwasanaeth darbodus, effeithlon ac effeithiol ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y Datganiad o Gyfrifon, yn ogystal â thrwy ddibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Drwyddi draw, rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw'r trefniadau hyn wedi dangos eu bod yn effeithiol eto neu lle y gellid gwella pethau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Un peth sy'n destun pryder penodol ar hyn o bryd yw'r ffaith ein bod wedi sôn am wendidau yn nhrefniadau rheoli grantiau'r Cyngor, fel y gwnaethom mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym yn dal i weithio ar y maes hwn ond, ein canfyddiadau cychwynnol yw bod angen gwella trefniadau rheoli grantiau'r Cyngor o hyd. Adroddir canlyniadau ein gwaith i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yn fuan yn 2013. Bydd gan y Pwyllgor rôl allweddol i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod £4,000 yn fwy na'r ffi y cytunwyd arni, sef £149,746, a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Mae'r ffi ychwanegol hon yn deillio o waith archwilio ychwanegol a gododd yn sgil system cyfrifyddu cyfalaf yr asedau sefydlog a nodwyd uchod.

Yn gywir

**Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu**
**Ar ran yr Archwilydd a Benodwyd**

cc Mr Mark James, Prif Weithredwr
Mr Roger Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol o gwmpas mis Gorffennaf neu Awst, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Mae copïau o'r cyfrifon ar gael gan y Cyngor; cewch hefyd archwilio'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n berthnasol iddynt am 20 niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Cewch holi'r archwilydd am gyfrifon y flwyddyn y mae'n eu harchwilio. Er enghraifft, cewch ddweud wrth yr archwilydd yn syml os ydych yn meddwl bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu sôn am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael gwybod rhagor, gweler taflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Council accounts: your rights*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu fe allwch ysgrifennu atom i'r cyfeiriad sydd ar gefn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Caerfyrddin

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella'i swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn,

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol 11/12 a Chynllun Gwella 12/13* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.sircaerfyrddin.gov.uk Sef:

| Blaenoriaethau o ran amcanion gwella allweddol 2011-12 | Blaenoriaethau o ran amcanion gwella allweddol 2012-13 |
|---|---|
| Byddwn yn darparu cymorth fel bod pobl yn gallu byw bywydau annibynnol. | Cefnogi'r nifer gynyddol o bobl hŷn i allu cadw eu hurddas a'u hannibyniaeth yn eu henaint. |
| Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn iechyd a lles tenantiaid y Cyngor drwy sicrhau bod eu cartrefi yn cyrraedd *Safon Tai Sir Gaerfyrddin*. | Gwella stoc dai'r Cyngor a chynorthwyo pobl leol i gael gafael ar gartrefi ar rent a chartrefi fforddiadwy. |
| Byddwn yn moderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion ac yn mynd i'r afael â llefydd ysgol gwag drwy weithredu *Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif*. | Parhau â'r buddsoddiad mwyaf erioed mewn addysg yn y sir hon. |
| Byddwn yn lleihau defnydd y Cyngor o ynni. | Gwarchod a gwella'r amgylchedd a gwneud cyfraniad o bwys at bolisïau ynni cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd. |
| Byddwn yn lleihau gymaint â phosibl swm y gwastraff rydym yn ei anfon i'w dirlenwi. | |
| Byddwn yn cefnogi busnesau a'r economi leol yn yr hinsawdd ariannol bresennol. | Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi i bobl leol. |
| | Sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a chyfeirio'n hadnoddau at wasanaethau'r rheng flaen sy'n brif flaenoriaeth ac y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt. |

## Hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2011-12 i'w weld yn yr un ddogfen unwaith eto ar wefan y Cyngor, sef www.sircaerfyrddin.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk